


"Roeddwn i yn anhyderus iawn yn dewis y pwnc yma i ddechrau gan fod llawer o ddisgyblion hyn yn dweud ei fod yn heriol. Ond wrth weithio ychydig o oriau yr wythnos mae'n dod yn llawer haws. Mae'n bwnc diddorol ac rydw i yn ei fwynhau yn arw."

Ela Evans



# Cemeg

## Pam astudio Cemeg?

Mae gan bobl barch mawr tuag at Lefel A mewn Cemeg, gyda'i amrywiaeth eang o sgiliau wedi'u profi, ac mae'n ddewis da ar gyfer sawl gradd prifysgol a gyrfa. Mae Cemeg wedi cael ei disgrifio fel 'yr wyddor ganolog' ac mae'n aml yn cael ei chyfuno â naill ai ffiseg neu fioleg. Mae'n ddewis gorfodol ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno dilyn gyrfa ym maes meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth, yn ogystal â graddau prifysgol sy'n seiliedig ar gemeg, er enghraifft fferylliaeth, ffarmacoleg a biocemeg.

Bydd Cemeg yn agor drysau i lawer o yrfaoedd amrywiol, yn y labordy a thu hwnt, ac mae pobl sydd wedi astudio Cemeg yn cael eu cyflogi mewn sawl sector, gan gynnwys ymchwil feddygol, gweithgynhyrchu ac addysg.

Mae cyfradd gyflogaeth gwyddonwyr cemegol yn uwch na myfyrwyr pynciau eraill, ac maent yn tueddu i gael eu talu'n well hefyd – hyd at 15 y cant yn uwch mewn rhai achosion. Bydd dros 70 y cant o fyfyrwyr cemeg yn cael swydd broffesiynol neu reolaethol ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau ac mae dwywaith cymaint â chyfartaledd y DU ohonynt yn dewis astudio ymhellach.

## Gofynion y cwrs

TGAU Gradd B mewn Cemeg neu TGAU Graddau B yn Uned 1 a 2 Gwyddoniaeth (Dwyradd), haen uwch. Bydd hefyd angen o leiaf B mewn TGAU Mathemateg.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

**UG Uned 1**: – Iaith cemeg, adeiledd mater ac adweithiau syml [20%]
(Papur arholiad ysgrifenedig - 1½ awr, 80 marc)

**UG UNED 2** – Egni, cyfradd a chemeg cyfansoddion carbon [20%]
(Papur arholiad ysgrifenedig - 1½ awr, 80 marc)

**U2 UNED 3** – Cemeg Ffisegol ac Anorganig [25%]
(Papur arholiad ysgrifenedig - 1¾ awr, 80 marc)

**U2 UNED 4** – Cemeg Organig a dadansoddi [25%]
(Papur arholiad ysgrifenedig - 1¾ awr, 80 marc)

**U2 UNED 5** – Arholiad ymarferol [10%]
Tasg arbrofi (30 marc, 3 awr)
Dulliau ymarferol a thasg dadansoddi (30 marc, 1 awr)

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Byddwch yn datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau dadansoddi a'r gallu i drin rhifau. Yn ogystal, bydd y gwaith ymarferol yn datblygu sgiliau labordy allweddol, gan gynnwys defnyddio cyfarpar cywir yn y labordy, arferion diogel yn y labordy, trin a gwaredu cemegau, dadansoddi data a datrys problemau ansoddol a meintiol.

Dyma rai o'r dewisiadau gyrfa mwyaf cyffredin ymhlith myfyrwyr cemeg – meddygaeth, milfeddygaeth, fferylliaeth, ffarmacoleg, deintyddiaeth, peirianneg gemegol, biocemeg, gwaith fforensig, cemegydd dadansoddol, technegydd labordy, cemegydd meddyginiaethol, cemegydd cynhyrchu, gwyddonydd amgylcheddol, ecoleg, dysgu, y gyfraith a gwyddoniaeth bwyd.